CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 31 IONAWR 2018

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 31ain o Ionawr 2018 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ken Lloyd, Miriam Moules, Wyn Thomas, Barry Williams, Dr Ioan Matthews, Peter Hughes Griffiths, Emlyn Schiavone, Gareth John, Dr Baba Gana, Parch Tom Defis, Angharad Jones Leefe a Dr Matthew Thomas.

Mr Alun Harries - Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Llinos Jenkins - Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau
Mr Tudur Jones - Cyfieithydd
Ms Hilary Jones - Cyngor Sir Caerfyrddin (tan 7:50)
Ms Rhian Davies - Cyngor Sir Caerfyrddin (tan 7:50)

Agorwyd cyfarfod gyda chyflwyniad gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 'Hyrwyddo Cyfleoedd Iechyd a Chwaraeon yng Nghaerfyrddin'.

359. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyng Jeff Thomas (oherwydd salwch) a'r Cyng Julia Ault (ymrwymiadau gwaith).

360. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyngh Alun Lenny ddiddordeb yn Eitem genda 10 fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

Datganodd y Cynghorydd Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 10 ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel Ymddiriedolwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng. Emlyn Schiavone ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel Ymddiriedolwr Oriel Myrddin a Chanolfannau Teulu Caerfyrddin.

Datganodd y Cyng Wyn Thomas ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel Ymddiriedolwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cynghorydd Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel Ymddiriedolwr Oriel Myrddin.

Datganodd y Cyng Phil Grice ddiddordeb yn eitem ar yr Agenda 10a (W/36674) fel cymydog i'r ymgeisydd.

361. Cwestiynau

Gofynnodd y Cynghorydd Miriam Moules y cwestiwn canlynol - *Beth mae'r Cyngor Tref yn ei wneud, mewn cydweithrediad â chyrff eraill (Siambr Fasnach a'r Cyngor Sir er enghraifft) i fynd i'r afael â mater siopau gwag yng nghanol y dref?*

Ymatebodd y Cadeirydd, y Cyng Alun Lenny gyda'r wybodaeth ganlynol - Mae Prif Gynllun Adfywio Tref Caerfyrddin 2014-2030 yn ei le yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan y Fforwm Tref. Mae Stryd y Brenin wedi gweld cynnydd o 5% yn y nifer o bobl a groesodd drothwy, a'r ffenestri mewn siopau gwag yn cael eu haddurno.
Mae arian ar gael o hyd o'r Rhaglen Datblygu Gwledig; defnyddiodd y Palm Caye Café y cyllid hwn yn ddiweddar i agor busnes yng Ngerddi Llydaw.
Mae BID Caerfyrddin ar y gweill a bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan ar ddatblygiad Jackson's Lane.
Nododd y Cyng Peter Hughes Griffiths fod gan Gyngor Sir Caerfyrddin dîm sy'n ymroddedig i adfywio ardaloedd heb eu defnyddio.

362. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 13eg o Rhagfyr 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2017 fel rhai cywir.

363. Materion yn Codi

Ni chododd unrhyw faterion

364. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9fed o Ionawr 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2018 fel rhai cywir.

365. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Tudalen 8:347 – Battle’s Over – Rhyfel Byd 1af

Tudalen 82:349 - Adroddiad Swyddog Gweithrediadau - Cais Cynllunio ar gyfer Difibrilydd ar wal allanol Neuadd Ddinesig Sant Pedr.

Nododd y Cyng Dr Ioan Matthews mai rhodd I’r dref, oddi wrth y teulu Hinds er cof am ei mab James Hinds yw Parc Hinds. Fe fu farw James Hinds yn y Rhyfel Byd Cyntaf. **CYTUNODD** y Cyngor ei fod yn bwysig nodi hyn yr un pryd â'r plac ar gyfer 'Fields in Trust' ym Mharc Hinds.

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Ken Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr argymhellion.

366. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 11eg Ionawr 2018

Cynigiwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 11eg o Ionawr 2018 fel rhai cywir.

367. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi

Tudalen 85: 358 – Cyllideb Ddrafft 2018/19

Cynigiwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyng Ken LLoyd a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid derbyn yr argymhelliad.

Yn ei le fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, diolchodd y Cyng Dr Ioan Matthews staff y Cyngor Tref am eu gwaith ar baratoi cyllideb 2018/19.

368. Adroddiad y Clerc

Ymgynghoriadau Statudol

(a) Cynllunio

W/36654 - 57 Stryd y Brenin, Caerfyrddin SA31 1BD - Dim gwrthwynebiad

W/36655 - 57 Stryd y Brenin, Caerfyrddin SA31 1BD - Dim gwrthwynebiad

W/36674 - 10 Heol y Delyn, Caerfyrddin. SA31 1EE - Dim gwrthwynebiad

W/36675 - 40 Heol Spilman, Caerfyrddin. SA31 1LQ - Dim gwrthwynebiad

W/36683 - Time Coffee Bar , 2/3 Stryd y Brenin, Caerfyrddin. SA31 1BD - Dim gwrthwynebiad

W/36691 - Garej Riverside, Heol Salem, Caerfyrddin. SA31 3HT - Dim gwrthwynebiad

W/36695 - Tir rhwng 113-117 Stryd y Priordy, Caerfyrddin. SA31 1NB - Dim gwrthwynebiad

W/36712 - 1 Stryd y Neuadd, Caerfyrddin. SA31 1PH - Dim gwrthwynebiad

Cynigiwyd yr ymatebion a restrwyd i'r ymgynghoriadau cynllunio statudol a nodir gan y Cyng Dr Matthew Thomas, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb.

b) Priffyrdd

Dim i'w adrodd.

(c) Trwyddedu

Dim i'w adrodd.

369. Ysgol Parc Waun Dew - Enwebu Cynrychiolydd Awdurdod Llai.

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Ken Lloyd, a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid enwebu'r Cyng Julia Ault (nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod) i gynrychioli'r Cyngor Tref.

370. Rhwydwaith Trawma Mawr ar gyfer De a Gorllewin Cymru a De Powys

Rhoddodd y Cyng Dr Baba Gana trosolwg gyffredinol o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cleifion trawma o fewn Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda a thynnodd sylw at y ffaith bod 27 o ganolfannau trawma yn Lloegr a dim un yng Nghymru. Cynigiwyd gan y Cyng Dr Baba Gana, eiliwyd gan y Cyng Ken Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylem gefnogi datblygu Rhwydwaith Trawma yn Ne a Gorllewin Cymru a Phowys.

NODWYD adroddiad y Clerc.

371. Adroddiad Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol

NODWYD adroddiad y Clerc.

372. Adolygiad o'r Sector Cyngor Tref a Chymuned

Cynigiwyd gan y Cyng Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb y dylid aros nes bydd Un Llais Cymru yn dosbarthu eu hymateb drafft cyn trafod y mater ymhellach. Fodd bynnag, dylai'r Clerc ymateb i'r arolwg ar-lein yn ôl yr angen.

NODWYD adroddiad y Clerc.

373. Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin

NODWYD adroddiad y Clerc.

374. Llythyr o werthfawrogiad

NODWYD adroddiad y Clerc.

375. Adroddiad y Maer

NODWYD adroddiad y Maer.

376. Adroddiad gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Dosbarthodd y Cyng Barry Williams ddatganiad i'r wasg diweddar gan y Cyngor Iechyd Cymunedol.

NODWYD adroddiad y Cyng Barry Williams.

377. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

378. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:15 yr hwyr.